

Dal y Geiriau Ynghyd

(Darlith gan Dafydd Glyn Jones i gynhadledd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, TU HWNT I'R GEIRIADUR, Coleg Harlech, dydd Gwener 27 Mehefin 2003. Cadeirydd, Bruce Griffiths.)

Mewnbyn a chŷn brasollt

'Rwy'n sicr ichi gael orig ddiddan a buddiol neithiwr yng nghwmni Emrys Evans yn trafod termau ac iaith y chwarel. Ond dyma ichi beth rhyfedd. Fe'm magwyd innau hefyd mewn ardal chwareli, gyda rhyw bedair chwarel yn gweithio'n weddol brysur, pan oeddwn i'n hogyn, o fewn dwy filltir i'm cartref. Eto, popeth a wn i am gŷn brasollt, blocyn hollti, llygad rhaff a chefna milgwens (ac ychydig ryfeddol yw'r "popeth" hwnnw), fe'i dysgais o lyfr. 'Doedd y termau hyn, na degau o rai da yr un fath â nhw, ddim yn rhan o'm bywyd i o gwbl, oherwydd nid chwarelwr oedd fy nhad. Byddai chwarelwr a'u teuluoedd yn galw bron bob dydd yn fy nghartref ar fusnes neu am sgwrs, ond chlywech chi byth sôn am "godi bona", "daffod troed", "hel stemia" na "sythu peilan" ar yr aelwyd acw. Pam nad oedd cymdogion o chwarelwr yn sôn yn ein tŷ ni am y pethau hyn, nac yn wir yn sôn fawr o gwbl am helbul a hwyl y chwarel? Am eu bod yn gwybod na fyddai fy nhad ddim callach. 'Doedd o ddim yn un ohonyn nhw. 'Rwy'n dweud hyn er mwyn gwneud pwynt am wir eirfa dechnegol, neu wir jargon. Mae "cŷn brasollt" ac "ebill deudwll" yn enwau pendant ar bethau pendant, un enw i bob gwrthrych, ac i'w defnyddio, fel y gwrthrychau eu hunain, gan a rhwng arbenigwyr. Dyna ichi jargon ddilys, geiriau â chyfiawnhad i bob un ohonyn nhw, am fod rhaid cael gair am y peth.

Wrth eich gwaith fel cyfieithwyr 'rydych chiwithau, rwy'n bur siŵr, wedi dod yn brofiadol o jargon. Mi fetiaf nad oes dim llawer o ddyddiau'n mynd heibio heb ichi orfod delio â thipyn o fewnbyn, allbyn, adborth, asesu, arfarnu, gwerthuso, monitro a meincnodi. Efallai y cewch eich hun yn gofyn, am y gair "adborth" ddywedwn ni: "i be' mae hwn yn dda?". 'Does dim eisiau gofyn hynny am "cŷn brasollt", oherwydd mae'n enw ar fath neilltuol o gŷn, i wneud job arbennig nas gwneir cystal gan unrhyw offeryn arall. Mi wn i y gall hyn swnio'n beryglus o agos at yr arfer dosbarth canol hwnnw o ladd ar y dosbarth canol a'i bethau, a chanmol y dosbarth gweithiol neu'r werin a'i phethau hithau. Ond fe wyddoch i gyd, 'rwy'n siŵr, am y dewis moesol sy'n wynebu cyfieithydd yn bur aml y dyddiau hyn: un ai penderfynu ymwrthod â rhai coeg-eiriau, am nad ydyn nhw'n golygu dim byd neilltuol, ac am nad oedd yr un Cymro wedi gweld eu hangen tan ryw ddeng mlynedd yn ôl; neu ynteu gadael i'r cwsmer gael ei allbyn os mai dyna sydd arno'i eisiau, ac os yw'n ddigon gwirion i dalu amdano! Weithiau 'does fawr o ddewis ond cyfieithu jargon â jargon, hyd yn oed os ydi hi'n jargon annilys a diangen.

At hyn 'rwy'n dod: mae jargon yn iawn yn ei lle, ond Tair enghraifft a rof

ichi, ac wedi imi eu rhoi 'rwy'n meddwl y gwelwch y pwynt yn syth. (1) Mwy nag unwaith mewn traethodau neu ymarferion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mi gefais fyfyrwyr yn ceisio disgrifio adeilad, a dyma a gafwyd: "Yr oedd y coleg/capel/siop/ffatri yn STRWYTHUR mawr"! (2) Mi gefais ganiatâd fy ngwraig i adrodd beth a glywodd hi y diwrnod o'r blaen wrth y stondin iogwrt yn Tesco, Bangor. Mam, wedi cael digon, yn dweud wrth ei phlentyn yn o ddiamynedd: "... a 'dwi ddim isio dim mwy o FEWNBWN gin ti"! Y fam, mae'n bur debyg, yn gweithio ym myd Addysg. (3) "Mae digon o OFOD yn y tŷ". Mae "gofod" yn iawn yn ei le, ond iddo beidio â chymryd lle "lle". Yr hyn a ddigwyddodd yn y tair enghraifft yna yw fod y jargon wedi goferu, neu wedi ymwthio, i'r iaith bob-dydd. Tuedd anffodus.

Ystyriwch y darn hwn, ac yna mi ofynnaf gwestiwn ichi:

Y cynllun gwreiddiol oedd canfod y brif duedd drwy fesur cyfraniad pawb yn y fro, tasg a oedd yn gofyn trefn bendant a gallu i drin pobl. Daeth cymaint o ymateb fel na ellid cloriannu'r cyfan ohono, felly penderfynwyd rhoi cynnig ar gynllun llai, gan gadw llygad a chadw trefn. Yr oedd yn ffordd o ddysgu hanes yr ardal.

A oes unrhyw beth o'i le arno? Nac oes, dim byd o gwbl. Pam felly, yn enw pob rheswm, dweud fel a ganlyn?

Y prosiect gwreiddiol oedd arsylwi ar y duedd ddominyddol drwy asesu mewnbwn pob person yn y gymuned, aseiniad a oedd yn gofyn strwythur pendant a sgiliau rhyngpersonol. Daeth cymaint o adborth fel na ellid gwerthuso'r cyfan ohono, felly penderfynwyd treialu prosiect llai, gan arsyllu a monitro. Yr oedd yn ffordd o addysgu hanes y dalgylch (onid yn wir y talgylch!).

Lle gwelwn ni jargon yn bwyta i mewn i'r iaith naturiol, mae'n iawn inni dynnu llinell a gweiddi "Wê"! Y sawl sy'n dweud "gwerthuso" heb wên ar ei wyneb, neu'n dweud "addysgu" lle mae pob Cymro call erioed wedi dweud "dysgu", fe ellir anwybyddu popeth arall y mae'n ei ddweud.

Ers tua dwy ganrif, oddi ar wawr y byd modern yn wir, mae'r Cymry wedi teimlo'r angen am fathu geiriau i ymdrin â'r byd hwnnw yn ei amrywiol agweddau. Fe fathwyd miloedd o eiriau gan y Dr. William Owen Pughe ac wedyn gan eiriadurwyr ac eraill drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, rhai wedi goroesi a llawer wedi syrthio ar fin y ffordd. Fe ddaeth hwrdd arall o fathu yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, a heddiw mae bathiadau a lled-fathiadau yn dal i ddylifo o wahanol leoedd yn gyflymach nag y gall yr un geiriadur eu cywain. Arwydd o fywyd yw hyn ... er gwaethaf "gwerthuso", "dominyddu" a rhai efrau eraill sy'n ffynnu yn y maes. Ond, fel y rhesymodd trefnwyr y gynhadledd hon yn gwbl gywir, ofer y miloedd geiriau unigol, hen a newydd, heb fod yna drefn i'w dal ynghyd mewn ffordd sy'n

bwrpasol, yn dderbyniol ac yn naturiol i Gymro. Fe ellir *gwneud* gair unigol, ac fe ellir yn ymwybodol benderfynu derbyn y gair yma a gwrthod y gair arall. Gyda *chystrawen*, neu gyfundrefn briod yr iaith, mae'n wahanol. Nid cynnyrch penderfyniad unigol yw honno, ond cynnyrch consensws tawel rhwng siaradwyr yr iaith. Cyhyd â bod y siaradwyr hynny'n uniaith, fel y mae mwyafrif mawr mawr siaradwyr Saesneg yn y gwledydd Saesneg er enghraifft, mae'r gyfundrefn yn ddi-feth. Lle bo'r siaradwyr yn bobl ddwyieithog, fe gollir y sicrwydd, ac o hynny fe ddaw anawsterau sy'n gyfarwydd i bawb ohonom yma.

'Rwyf newydd ddarllen a mwynhau'r nofel newydd *Dial yr Hanner Brawd*, gwaith un o'ch plith chi gyfieithwyr, Arwel Vittle. Dyma ichi ddisgrifiad o un o'r cymeriadau:

Roedd Dyfrig Elwyn yn burydd ieithyddol. Y puraf o bob purydd, yn feistr corn ar acenion ac orgraff. Ceidwad safonau mewn oes anwar. Mwla mwyaf y Taliban iaith. Doedd dim dwywaith ei fod yn olygydd trylwyr a chydwybodol, ond roedd ganddo dueddiad anffodus i hollti blew a gwneud ati i chwilio am wallau lle nad oedd rhai'n bod. A chyda phob gwall ar y papur, cynyddu a wnâi ei ymdeimlad o'i bwysigrwydd ei hun. Yn y diwedd, doedd neb ar ôl a fedrai siarad ac ysgrifennu Cymraeg cywir ond Dyfrig Elwyn ei hun.

Ar ddirfawr berygl swnio fel Dyfrig Elwyn y bore 'ma, mi wnaf yr hyn yr awgrymwyd fy mod yn ei wneud, sef trafod rhai o'r newidiadau sy'n digwydd i gystrawen y Gymraeg heddiw, a mentro ychydig o farn bersonol ar y cwestiwn: pryd y dylem boeni, a phryd y dylem dderbyn y newid fel rhywbeth naturiol, rhywbeth sy'n "digwydd" a dyna i gyd.

Cacan Jocled

Dyma ichi i ddechrau, fel y dywedai Jonsi, "hen gacan jocled yndê latsh bach", i droi stumog Dyfrig Elwyn:

Gofynnais wrth y dyn a eisteddodd ar y gadair pryd oedd y neges yn dod trwyddo. "Galla i ddim dweud", meddai. "Dydw i heb fod yma'n hir." Gofynnais wedyn os oedd llythyr wedi'w adael i mi. Atebodd yr oedd yn siŵr nid oedd neb wedi gadael ddim. "Lle ti'n disgwyl y neges o?" gofynnodd. "O Fenllech," meddais innau. Sylwais yr arwydd: "Dylir yr aelodau adael eu llythyrau yn y blwch". Yr oedd llawer o bobl dieithr i mi yn brysur mynd a dod, a gwelais dau ddynes mawr yn mynd trwy'r drws. "Wnewch chi fy ngadael i mewn?" gofynnais; oherwydd roedd o'n oer yn y cyntedd, a minnau bron wedi troi i mewn i dalp o rew. "Mae o'n amhosibl i mi i wneud hynny," meddai'r dyn. Disgwyliwn ef i fod yn fwy rhesymol, er ni ddylir hyn yn ei hun fy synnu. Yr oeddwn wedi bod mewn neuadd y coleg o'r blaen. Hanner awr yn hwyrach ymlaen yr oedd y dyn yno dal. Disgwyliwn y drws i fod wedi ei agor,

ond nid oedd wedi.

Rhaid dweud hyn am y darn: mae'n ddigon dealladwy i Gymro, ac yn gwbl annealladwy i neb ond Cymro. Cymraeg ydyw, ond Cymraeg sy'n adlewyrchu rhai o'r pethau sy'n digwydd i'r iaith heddiw. Yn y gacen mae dros ddeg ar hugain o bethau i gythruddo Dyfrig Elwyn. Os gallwch chi ddychmygu cymryd cŷn manollt at gacen jocled, fe wnawn ni hynny yn awr, a cheisio gwahanu a didoli rhai o'r nodweddion.

Digwydd

“Pwy laddodd Miss Wales?” Ai Miss England yw'r llofrudd? Nage, ddim y tro yma, fel yn stori Bobi Jones. Newidiadau yw'r rhain i gyd sy'n rhyw ddigwydd, ac wedi digwydd, yn y Gymraeg *heb* i ddylanwad y Saesneg fod yn gyfrifol, hyd y gallaf i weld. Yn fy nyddiau marcio ymarferion, mi fyddwn yn eu cywiro i gyd, a byddwn yn dal i'w cywiro heddiw pe baech yn gofyn imi, oherwydd maent yn ansafonol, a fyddwn i ddim am i neb arall gywiro ar fy ôl. Ond symudiadau o fewn y Gymraeg sydd yma, rhai ohonyn nhw am fod rhesymeg weithiau'n drech nag arferiad.

1. “Y dair llong” (treiglo drwy gydweddiad â “y ddwy long”, treiglo'n ddigon rhesymegol, os an-nhraddodiadol); “y law chwith” (treiglo drwy gydweddiad â “y gath”, “y ddafad” neu drwy gydweddiad â “dwy law”). Mae *ll* yn gytsain dreigladdwy, felly ei thrin fel y cytseiniaid treigladdwy eraill. “Tydi *ll* ac *rh* ddim yn treiglo ar ôl y fannod!” meddwn innau wrth do ar ôl to o fyfyrwr, gan ddyrnu'r ddesg o fy mlaen, fel y gwna unrhyw athro sydd ar dân dros ei bwnc. Ond trech rhesymeg na rheol, efallai.
2. “Mae wedi'w adael”. “I'w adael”, felly “wedi'w adael”: cysoni, rhesymoli, cydweddu. Mae'n dal i frifo fy nghlust i, ond gallaf ddeall yn iawn pam y mae'n digwydd.
3. “Gofynnais wrth y dyn”. “Dweud wrth” - “gofyn wrth”: unwaith eto, cydweddiad, ac nid oes a wnelo'r Saesneg ddim â'r peth.
4. “Dylir bod yn ddiolchgar.” “Grand'wch y tacla! Berf ddiffygiol ydi *dylid*, gyda'r amherffaith yn gweud gwaith y presennol! 'Does yna ddim y fath ffurf â *dylir!*” Wel oes, dyma hi, wedi dod trwy resymoli neu gydweddu. Be' ydw i haws?
5. “Mae hi'n dal yno” > “Mae hi dal yno” > “Mae hi yno dal”. 'Rydw i'n mynd i oed. 'Rydw i'n hoffi gweld yr *yn* traethiadol, neu 'n, o flaen “dal” ... ac yn wir o flaen “wastad”, er bod awduron digon parchus yn ystod yr ugeinfed ganrif wedi sgrifennu pethau fel “mae hi wastad yn anodd”. Ond, cael ei ollwng y mae'r *yn*, nes colli golwg ar ei bwrpas. Ac unwaith y cewch chi “mae hi dal

yno”, mae’r “dal” yn dechrau edrych a theimlo fel adferf; wedyn, fel unrhyw adferf arall mae’n mynd yn symudol o fewn y frawddeg, gan roi “mae hi yno dal”. Cystrawen yw hon y byddaf i, yn gam neu’n gymwys, yn ei chysylltu â merched ifainc, a’r rheini’n ferched ifainc sydd hefyd yn tueddu i atalnodi brawddegau bod hyn a hyn â’r geiriau “fatha”, “sorto” a “wch-i”; Ac fe’r trawodd i ryw dro mai’r un rhai sydd, yn an-nhraddodiadol ond yn gywir, yn dweud “gwallt oren” lle byddai rhyw hen begor fel fi’n dweud “gwallt coch”. Petawn i’n dweud wrthyf chi fod cynhadledd o ferched ifainc un diwrnod wedi penderfynu newid berfenw yn adferf, ac yna newid safle’r adferf yn y frawddeg, byddwn yn dweud gormod. Ond dyna swm a sylwedd y newid, mewn cystrawen nad oes dim byd yn union gyfatebol iddi yn y Saesneg.

6. “Ti ddim wedi, ond fi yn”. Ie, cystrawen israddol, iselwael a phen-isa’r-farchnad ofnadwy, cystrawen na byddai yr un chwarelwr yn ei iawn bwyll yn ei hynganu rhag merwino clustiau’r car clustia. Ond o ble daeth hi, dywedwch? Nid o’r Saesneg, oherwydd nid oes mo’r fath batrwm yn y Saesneg. Beth bynnag a feddyliwn ni amdano, datblygiad oddi fewn i’r Gymraeg sydd yma.
7. “Brawd fi”. Dyma ni ym myd y siopau rhad eto. “Fy mrawd” meddai Cymraeg llenyddol, “y mrawd” neu “mrawd” meddai llafar safonol. O ble daeth “brawd fi”, felly? Nid oes “brother me” na “brother my” yn y Saesneg, felly nid o’r fan honno.
8. “Yn prysur fynd > yn brysur fynd > yn brysur mynd”. Yn y gystrawen *yn + ansoddair + berfenw*, y berfenw sy’n treiglo, nid yr ansoddair: yn cyflym ddarfod, yn graddol godi &c &c. Nid yw cam cyntaf y newid - “yn brysur fynd” - ddim mor newydd; mi welais esiamplau yn ddiweddar yn rhai o anterliwtiau’r ddeunawfed ganrif. Mae’r cam nesaf - “yn brysur mynd” - yn newid neu’n ddirywiad diweddar. Ond yma eto, Saesneg - dieuog, oherwydd nid oes y fath batrwm yn y Saesneg.
9. “Pryd oedd y neges yn dod” (yn hytrach na “pryd ’roedd ...”). Mae “Deud ydw i” wedi ei hanfarwoli gan Mr. Ifans y Tryc ac mae’n gwbl gyffredin; dyna a ddywedwn innau ran amlaf. Ond ’rwy’n sicr y byddai fy nain, o’r un cwmwd ag Ifans, yn cynnwys y geiryn berfol yn bur reolaidd: “O, deud ’rwyf ti?”. Weithiau mi ddywedaf yr *r*, dro arall ddim; a llawer ohonoch yr un fath â mi ’rwy’n siŵr, gyda phobl y De, efallai, yn ei chynnwys yn amlach na phobl y Gogledd. Brawddeg bwyslais gyda thraethiad berfol sydd yma, ond mae hi wedi newid, neu yn newid, ar batrwm y frawddeg gypladol. “Dysgu ’rydw i” (brawddeg ferfol, â phwyslais), “athro ydw i” (brawddeg gypladol), ac yna “dysgu ydw i” (rhwng y ddwy). Dyma eto newid cwbl ddealladwy, yn digwydd o fewn y Gymraeg, heb unrhyw bwysau o’r tu allan hyd y gwelaf.

Dynward

Yma, mae pob bys yn pwyntio at y Saesneg. Saesneg sy'n rheoli'r newid. Fe allwch weld patrwm y Saesneg yn glir ym mhob un o'r enghreifftiau.

1. “Lle ti'n mynd i?” “Pwy ti'n mynd efo?” “Lle mae o'n dod o?” Cwestiwn o dan reolaeth arddodiad sydd yma, ac yn draddodiadol yr arddodiad oedd yn arwain: I ble ...? Efo pwy ...? O ble...? Ond dyma newid trefn i gydweddu â'r Saesneg, gydag arddodiad yn digwydd yn foel ar ddiwedd brawddeg! Panics! Trychineb! Diwedd y byd! “Bu farw Mr. Dyfrig Elwyn yn dilyn trawiad”.
2. “Mae hi'n anodd i wybod”. Un gair yw'r berfenw Cymraeg: “gwybod”. Ac mae'r *verb-noun* Saesneg yn ddau air: “to know”. Dan ddylanwad y Saesneg, dyma gynnwys yr *i*, ac mae'n digwydd yn gynyddol: “nid yw'n wir i ddweud”, “yr oedd yn bosib i fynd”, “gofyn i rywun i siarad” &c &c. Poenus o hyd i mi, nid mor boenus, mae'n amlwg, i'r to sy'n codi; ond gellir gweld yn union sut y daeth.
3. “Disgwyliwn ef i ddod”. Patrwm y Saesneg yn disodli'r gystrawen Gymraeg “disgwyliwn iddo ddod”. “Cefais fy ngofyn i fynd”. Trin yr amhersonol, “gofynnwyd imi fynd”, yn mynd yn ormod o dasg, ac felly symleiddio, gan fodelu'n uniongyrchol ar y Saesneg.
4. “Yr wyf yn ufuddhau'r athro”. Anghofio, neu erioed wedi deall, fod rhai berfau yn Gymraeg fel mewn ieithoedd eraill yn cymryd arddodiaid ar eu holau. 'Rwyf wedi gweld “tosturiais ef” yn lle “tosturiais wrtho”, “maddeuais hi” yn lle “maddeuais iddi”; a chyffredin iawn yw “mae wedi fy nylanwadu” yn hytrach na “mae wedi dylanwadu arnaf”. Symleiddio, ar batrwm y Saesneg, ym mhob achos.
5. “Dyweddodd yr oedd yn hapus”, “gwaeddodd nid oedd yn clywed”. Mae'r naill yn gadarnhaol a'r llall yn negyddol, ond yr un hen wall sydd yn y ddau, sef methu newid gêr i gyflwyno cymal enwol neu is-osodiad. “He said he was happy”, “he shouted he couldn't hear”: fel y mae'r Saesneg yn rhwydd yn gollwng y “that”, felly mae'r Gymraeg yn torri allan gymhlethdod “ei fod yn hapus”, “nad oedd yn clywed”. Gwneud pethau'n haws yn y tymor byr, ond colli rhywbeth wrth gwrs.
6. “Astudio'r byd natur”. Dyma iaith ac ynddi ddwy fannod, penodol ac amhenodol, yn dylanwadu ar iaith ac ynddi ddim ond un fannod, y benodol, ac felly cystrawen yr enw ynddi yn hollol wahanol. Yn Gymraeg mae'r enw “natur” yn y safle yna yn penodoli'r enw “byd”, fel nad oes angen bannod benodol o'i flaen: “astudio byd natur” sy'n gywir. Ond dyma'r fannod yn ymwithio i mewn o'r Saesneg: “the world of nature”. Mae'n fater gwahanol, wrth gwrs, os oes rhyw oledddydd yn dilyn. Byddai “y byd natur 'ma”, neu “y byd natur cyfareddol a dihybydd ddiddorol hwn” yn hollol gywir.

Felly dyna inni chwe achos lle mae patrwm a phwysau'r Saesneg i'w gweld yn ddigon clir.

Simsanu braidd

Yma, nid yw patrwm y Saesneg yn amlwg fel yn yr adran o'r blaen. Eto mae Miss England rywle yn y cefndir. Rydym yn ymwneud yma â nodweddion ieithyddol nad ydynt yn bod yn y Saesneg; ond oherwydd presenoldeb diosgoi'r Saesneg mae gafael y Cymro ar batrymau traddodiadol ei iaith ei hun yn gwanhau. 'Dydi'r Cymro ddim yn sicr beth i'w wneud â nhw, am nad oes dim gwarant na phatrwm yn yr iaith fawr sydd bellach ar waith ym mhob cornel o'i fywyd. Gallwn grynhoi a chyffredinoli llawer:

1. Yn gyntaf, unrhyw beth y mae a wnelo â chenedl enw. 'Does dim cenedl yn y Saesneg, felly mae'r Cymro'n mynd yn ansicr ac yn swil o ymhel â'r peth:
 - (a) "Y brenhines". Treiglo enw benywaidd ar ôl y fannod. Be' ydi benywaidd?
 - (b) "Pobl mawr". Treiglo ansoddair ar ôl enw benywaidd. Unwaith eto, be' ydi benywaidd?
 - (c) "Y Tri Arth". Cenedl rhifolyn, nid yw'n bod yn y Saesneg. Ni waeth un enghraifft mwy nag ugain.
 - (ch) "Y trydydd gymdeithas". Cenedl trefnolyn, nid yw'n bod yn y Saesneg.
 - (d) "Mae yma problem". Treiglo ar ôl adferf. *Wha?*
 - (dd) "Darllen y gyfrol drwyddo". Cytundeb yn nherfyniad yr arddodiad wrth gyfeirio'n ôl. Pwy glywodd am y fath beth?
 - (e) "Mae'r ffordd wedi ei gau". Cytundeb yn y bôn wrth gyfeirio'n ôl. Unwaith eto, pwy glywodd am y fath beth?
 - (f) "Mae e'n anodd gwybod". Ys dywed Peter Wynn Thomas yn ei ramadeg, benywaidd bob amser yw'r "rhagenw gwag". "Mae *hi*'n oer", "mae *hi*'n wir", "mae *hi*'n anodd". Ond pan ddywed rhywun "Mae o'n/e'n oer", ni waeth imi heb â gofyn "ym mha wlad 'rwy't ti'n byw, y lembo gwirion?" oherwydd mi wn yr ateb: "mewn gwlad lle nad oes genedl enw".
2. "Mae Plaid wedi dewis ymgeisydd, un o Fermo". Gallaf yn hawdd ddychmygu'r frawddeg yn *Y Cymro* neu *Golwg*. Gyda *P* fawr, nid *unrhyw* blaid a olygir wrth gwrs, ond y Blaid, Plaid Cymru, The Party of Wales. Daeth arfer cyffredin iawn o alw honno, yn Saesneg, yn "Plaid", a dyma hwnnw bellach yn ymwithio'n ôl i'r Gymraeg. Ac un o Fermo oedd yn ymgeisydd. Os nad oedd o'n un o Fennech. [Neu o Flaenau, meddai'r Cadeirydd yn y fan hon.] 'Dydw i ddim wedi clywed eto "o Fala". Ond fe ddaw! Mae'r awdur hwn yn byw mewn byd lle nad oes cyfuniadau rheolaidd o fannod ac enw, fel a fu'n draddodiadol yn y Gymraeg. Y rheswm na fydd o'n mynd i "Havre" neu "Toucquet", "Vegas" neu "Angeles" yw na wŷyr o ddim mai bannod yw'r elfen gyntaf yn yr enwau. Mae fel y wraig honno yn y gyfres deledu Americanaidd *Soap*, a gyfarchai gyfaill o fandit yn rheolaidd fel "El" gan gredu mai dyna'i enw cyntaf. Unwaith eto, dengys y gwall nid yn gymaint fodelu ar y Saesneg â methu trin nodwedd nad yw i'w chael yn y Saesneg.

3. “Edrychais ar y cloc a safodd yn y gornel.” ’Dydi’r Saesneg ddim yn gwahaniaethu’n ramadegol rhwng gorffennol syml ac amherffaith yn y ffurfiau cryno; “stood” fyddai’r ddau. Fe *allai*’r Cymro wahaniaethu rhwng “safodd” a “safai”, a gwnâi hynny’n reddfol a di-ffael; ond bellach mae’n colli’r gallu i wneud hynny, am nad yw’r iaith arall yn ei wneud.
4. “Safer y bardd”. Dyma beth sy’n dod yn hynod gyffredin, er nad wyf *hyd yma* wedi clywed Archdderwydd yn ei ddweud. Dau declyn tra defnyddiol i Gymro ers cyn cof fu’r gorchymyn trydydd person (safed) a’r gorchymyn amherfonol (safer). Mae’r ddau yn bethau cwbl ddieithr i’r Saesneg, felly mae greddf y Cymro druan yn pallu.
5. “Mae’n ymguddio’i hun”. Nid yw’r ferf atblygol yn bod yn y Saesneg, mewn ffurf gryno. Felly mae’r Cymro’n mynd yn ansicr sut i’w thrin hithau, ac mae’n ychwanegu gwrthrych arall, diangen, at y gwrthrych sydd eisoes yn yr *ym-*.
6. “Mewn cyfarfodydd yr eisteddfod ...”. Mae un arddodiad *in* yn ddigon i’r Sais; ’does arno ddim angen rhyw “yn” a rhyw “mewn” sy’n amrywio yn ôl penodolrwydd neu amhenodolrwydd yr enw sy’n dilyn. Ac yn awr dyma’r hen Gymro’n mynd i fethu. Mae wedi etifeddu nodwedd ieithyddol nad yw’n gallu ei thrin bellach.
7. “Mae hyn yn broblem yn ei hun”. Rhediad arddodiaid? Ffurf berfonol ar yr arddodiad - ynof, ynot, ynddo, ynddi & c - pa ieithoedd sydd â pheth felly? Yn sicr nid y Saesneg. A bellach wŷr y Cymro bach ddim sut i drin y peth.
8. “Dydw i heb fynd”. Ystyr hynny yw: “rydw i wedi mynd”, gyda’r ddau negyddol yn dileu ei gilydd fel mewn algebra, a mynd â ni’n ôl at y cadarnhaol. Sut nad yw’r awdur wedi gweld hynny? All o ddim gweld mai’r dewis yw: *un ai* “rydw i wedi mynd” *neu* “dydw i ddim wedi mynd” *neu* “rydw i heb fynd” (sydd yr un peth â’r blaenorol)? Na all, mae’n amlwg, a’r rheswm am hynny yw nad yw’r patrwm i’w gael yn Saesneg. Nid *dynwarded* y Saesneg sydd yma, ond baglu am nad oes arweiniad yn y Saesneg.
9. “Gwneud pawb i chwerthin”. Dyma’r berfenw eto, yn y gystrawen yn dilyn “gwneud”. ’Dydi’r Saesneg “make everyone laugh” ddim yn union yr un fath, ond eto mae’r Cymro wedi colli gafael ar ei gystrawen ei hun, “gwneud i bawb chwerthin”. Mae wedi colli ei sicrwydd, ac felly mae’n dweud pethau fel “gwneud dyn i gysgu”, “gwneud y tŷ i ysgwyd”, “gwneud y gwynt i chwythu”. Mae’n beth hollol wahanol wrth gwrs os oes pwrpas i’r “i”, os yw hi yna yn ei hawl ei hun fel arddodiad: “gwneud pont i groesi’r afon”.
10. “Dywedir Wil ei fod yn wir”. Ffurf amherfonol y ferf? Nodwedd gwbl ddieithr i’r Saesneg. Ac am na *wyddai*’r Sais beth i’w wneud â hi, mae’r Cymro’n mynd na wŷr yntau chwaith, ac yn cynhyrchu cystrawen chwerthinllyd, amhosibl sydd, gwaetha’r modd, yn dod yn fwyfwy cyffredin.
11. “Y wraig a welais ei llun”, “y dyn yr enillodd y wobr”. Heb eu galw’n hynny o angenrheidrwydd, na’u galw’n ddim byd neilltuol, yr oedd yr hen Gymro’n bur sicr a

rheolaidd yn ei ddefnydd o'r cymal perthynol rhywiog a'r afrywiog. Wrth chwilio'n ôl fe welwn nad oedd yr hen awduron yn ddi-feth o gyson, hyd yn oed y goreuon; ond petaech chi'n pwysu arno fe wyddai'r Cymro'n iawn pa un oedd pa un. Mae dyfais y Saesneg yn hollol wahanol, gyda *who, whom, which, whose, of which, to whom &c.* Ac am fod y Saesneg mor wahanol, ac eto ei gramadeg hi yn rheoli ei feddwl fwy a mwy, mae'r Cymro'n mynd yn ansicr ac yn methu â thrin yr adnoddau sydd ganddo, neu a ddylai fod ganddo.

12. "Mae'r parti drosto", "mae'r neges wedi dod trwyddo". Mae cryn gymysgu bellach, mewn llafar ac ysgrifen, rhwng ffurfiau *personol* arddodiaid (drosod, drosot, drosto, drosti &c) a'r ffurfiau *annibynnol* (drosodd, trwodd &c). Pam? Am nad oes yn y Saesneg ddim yn cyfateb i'r naill na'r llall.
13. Gwell inni gael ein hen gyfaill "gofyn os", sy'n dal i ffynnu er yr holl ddyrnu a fu arno dros y blynyddoedd. Yn ôl un ysgol o buryddion mae "to ask if" yn ansafonol hyd yn oed yn Saesneg. Ond faint o Saeson sy'n cofio dweud "to ask whether" bob tro, neu hyd yn oed ambell dro? 'Does dim raid i'r Sais, mwy nag unrhyw siaradwr uniaith, gymryd unrhyw sylw o'r purydd.
14. A pha beth gwell i orffen na'r anfarwol "cig oen Cymraeg"? Mae'r gwahaniaeth *-eg/-ig* mewn ansoddair yn gwbl ddieithr i'r Saesneg, ac am nad yw'r Sais yn gorfod boddran yn ei gylch, mae'r Cymro yntau'n anghofio boddran, gan roi inni "gig oen Cymraeg" ac wrth gwrs "y Swyddfa Gymraeg" nad oes neb bellach yn siŵr iawn a ydi hi'n bod ai peidio. Posib y bydd ei henw anghywir fyw ar ei hôl!

Arddodiaid, arddodiaid!

Dan y pennawd hwn ni wna fanylu, dim ond rhestru. Fe ddengys pob enghraifft inni fel y mae'r arddodiaid, powltiau a nyts yr iaith, yn newid gan ddynwared y Saesneg yn ddi-feth.

rhoi côt ar/arnat, rhoi het ar dy ben
 stori o ddyn yn byw ar ynys
 agwedd o'r sefylla
 annibynnol o'r gymdeithas
 eglurhad am y peth
 ymdriniaeth o'r pwnc
 ni ellir gweud dim amdano
 rhannu i dair rhan
 torri i ddarnau
 troi i mewn i lyffant
 tynnu sylw i rywbeth
 apelio i mi
 ychwanegu i'r pwddin
 beth gymerwch chi i bwddin?
 mynd i'r deintydd
 cefais gamera o dad
 mae wedi mynd yn ôl i'w wraig

aros nes yr haf
llythyr wrth ei chwaer
blino o ddisgwyl
mae'n gwneud hyn ar bwrpas
am blentyn yr oedd yn alluog iawn

Beth a wneir? Gweiddi, rho, dweud y drefn, chwythu falf, cosbi, disgyblu, annog, helpu, cynghori, esbonio, canmol, gwobrwyo, annog, arwain, calonogi? Enwch o, ac 'rydw i, a phob athro iaith o'r bron, wedi ei drïo yn ein dydd. 'Does dim gwir ateb y tu yma i newid amgylchiadau bodolaeth y Cymro, ac wrth feddwl am hynny cofio cymhwyso bob amser egwyddor fawr y New Deal fel yr eglurwyd hi yng ngeiriau anafwrol F.D. Roosevelt: "trio rhywbeth, ac os nad ydi hwnnw'n gweithio, trio rhywbeth arall". 'Rwyf am orffen heddiw yn yr un fan yn union ag y gorffennais fy hen ddarlith ar *John Morris-Jones a'r "Cymro Dirodres"*, chwe blynedd bellach yn ôl. Er mai gweithgareddau eilradd yw darllen ac ysgrifennu, er mai siarad yw'r gweithgarwch sylfaenol mewn unrhyw iaith, er mai disgrifiad o iaith lafar yw'r wir ramadeg, er mai cywirdeb llafar yw'r gwir gywirdeb, eto mae llythrenogrwydd, y gallu i ddarllen yr iaith, a gorau oll i'w hysgrifennu, yn foddion cryf iawn i'w sefydlogi hi ac i'w hatgyfnerthu ac i fagu agwedd gadarnhaol tuag ati. Llwyddiant diwylliannol mawr Cymru'r dengmlwydd ar hugain diwethaf, a'r unig un efallai, fu'r papurau bro, sydd hyd yma'n dal gafael ryfeddol o dda ar eu 70,000 o brynwyr, ac mae'n debyg ryw deirgwaith hynny o ddarllenwyr rheolaidd. Dyma'r sylfaen i adeiladu arni wasg ddyddiol reolaidd Gymraeg, ac mae'n amlwg i mi, beth bynnag, mai'r ffurf y dylai honno ei chymryd yw cadwyn o saith neu wyth o bapurau hynod leol eu hapêl, ond yn cario hefyd ddigon o newyddion Cymru, y Deyrnas a'r byd. Iaith a ddarllenir yn feunyddiol gan gan mil o bobl, mae hi'n sicr o fyw. Ac un peth arall o blaid datblygiad o'r fath: byddai'n rhoi gwaith i gyfieithwyr!